YSGOL GYMRAEG

CADW IAITH CADW GWLAD

BRYN Y MÔR

# Tymor yr Hydref 2019 – Dosbarth Derbyn Mrs Jenkins

Thema'r tymor yw:

## Pawennau, Crafangau a Wisgers

Dyma ein syniadau ar gyfer y tymor.



**Y Dyniaethau**

- Dysgu am yr Hydref a chwilio am newidiadau ym myd natur ym Mharc Brynmill
- Darganfod am sut rydyn ni'n arbennig ac ystyried sut allwn ni ddangos i eraill eu bod nhw yn arbennig hefyd
- Dysgu am 'Raksha Bandhan', sef gŵyl Hindwaidd

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

- Dysgu am anifeiliaid sydd yn rhan o deulu'r cathod yn cynnwys cathod dof a chathod mawr
- Dysgu am gynefinoedd lle mae cathod yn byw yn y cartref ac yn y gwyllt
- Dysgu am rannau cyrff cathod ac anifeiliaid anwes eraill

**Sgiliau Cymhwysedd Digidol:**

- Datblygu ein sgiliau prosesu geiriau
- Dysgu sut i gadw gwaith

**Y Celfyddydau Mynegiannol**

- Tynnu lluniau o gathod
- Creu ffurfiau 3D o gathod
- Dysgu caneuon am gathod
- Dysgu sut i drefnu symudiadau i synau a cherddoriaeth
- Perfformio hwiangerddi a rhigymau rhif yn y Her Rhigwm ar ddiwedd yr hanner tymor (23/10/19)

**Iechyd a Lles**

- Chwarae gemau i ddatblygu sgiliau canolbwyntio
- Dangos gofal, parch a hoffter at ein gilydd, tuag at oedolion a'n hamgylchedd
- Dysgu am sut i ofalu am anifeiliaid ac am sefydliadau ac elusennau sy'n darparu lles anifeiliaid
- Dod yn fwy annibynnol a hyderus yn ein dysgu
- Ymarfer a datblygu sgiliau echddygol bras, sgiliau llawdrin manwl a chydsymud llaw-llygad

**Ymweliadau/Ymwelwyr**

Fe fydd swyddogion o Ganolfan Anifeiliaid **Llys Nini** yn ymweld â'r ysgol-dyddiad i'w drefnu

**Cofiwch ymweld â [www.yggbrynymor.co.uk](http://www.yggbrynymor.co.uk) -'adran y plant – tudalennau dosbarth' am fwy o fanylion.**
**Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd!**
**@YGGBrynymor1**

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

- Creu cornel chwarae ' Milfeddygfa Marc'
- Gwrando ar lawer o straeon a cherddi sy'n ymwneud â'r thema
- Dysgu caneuon, rhigymau a hwiangerddi
- Mynegi ein hunain drwy wneud marciau, tynnu lluniau ac ysgrifennu cychwynnol

**Mathemateg a Rhifedd**

- Datblygu ein dealltwriaeth o iaith fathemategol drwy chwarae rôl a chwarae gemau
- Canu caneuon ac adrodd rhigymau rhif
- Cyfrif, trefnu cymharu a dosbarth gwrthrychau
- Dechrau dysgu adnabod ac ysgrifennu rhifau
- Ymchwilio i fesurau, siâp a phatrwm